Medi 2023

# Gwybodaeth i ymgeiswyr:

# Prif Swyddog Gweithredol (PSG)

Cyf: QJUS

Ofwat

# Cyflwyniad gan David Black, Prif Weithredwr



Mae dŵr a gwasanaethau dŵr gwastraff yn hanfodol i'n bywydau beunyddiol, i'n lles ac i fyd natur.

Fel rheoleiddiwr economaidd cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr, ein rôl ni yw galluogi, creu cymhellion a dal cwmnïau i gyfrif er mwyn darparu'r gorau oll i gwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol. Ni hefyd sydd yn goruchwylio'r marchnadoedd yn y sector dŵr er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gweithio i gwsmeriaid.

I wneud hyn, rydym wedi gosod tri nod i ni'n hunain, sef:

- trawsnewid perfformiad cwmniau dŵr;
- annog cwmniau dŵr i ateb heriau tymor-hir trwy fwy o gydweithio a phartneriaethau; ac
- i gwmnïau dŵr roi mwy o werth amgylcheddol a chymdeithasol fel rhan o'r hyn sy'n cael ei gyflawni i gwsmeriaid.

Mae'r rôl hon yn un arweiniol allweddol yn Ofwat, gan arwain ein Cyfarwyddiaeth Galluogwyr Corfforaethol, sy'n adrodd i mi. Mae'r gyfarwyddiaeth yn darparu gwasanaethau galluogi corfforaethol proffesiynol – Cyllid, Caffael, TG, Gwasanaethau Gweithle, Pobl – fel bod Ofwat yn rhedeg yn llyfn ac yn cyfrannu at gyrraedd ein strategaeth Amser i Weithredu,

Rydym yn uchelgeisiol at y dyfodol ac yn chwilio am bobl all ein helpu i gyflwyno newid parhaol er budd cwsmeriaid a'r amgylchedd.

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno ag Ofwat. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

**David Black**
**Prif Weithredwr**

## Am Ofwat

Adran anweinidogol o’r llywodraeth yw Ofwat (Yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr). Yr ydym yn rheoleiddio’r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Ein rôl yw helpu’r sector i adeiladu ymddiriedaeth a hyder cwsmeriaid, yr amgylchedd a chymdeithas yn ehangach: cadw dŵr yn llifo, biliau’n fforddiadwy, a helpu i sicrhau iechyd ein hafonydd a’n dyfrffyrdd.  Rydym yn ymdrechu’n galed i wella perfformiad cwmniau dŵr o ddydd i ddydd i gwsmeriaid, gan gynnwys ar ollyngiadau, carthffosydd yn gorlifo, a gwasanaeth i gwsmeriaid. Rydym yn gyrru’r sector i edrych yn fwy ar y tymor hir ac i gymryd camau yna ŵr i warchod a gwella’r amgylchedd, gan ddefnyddio camau digidol a data arloesol a gofalu bod ein cyflenwadau dŵr yn ddiogel i’r cenhedloedd a ddaw. Trwy ein hadolygiadau prisiau bob pum  mlynedd, rydym yn goruchwylio buddsoddiadau gwerth biliynau o bunnoedd yn y sector dŵr ledled Cymru a Lloegr.

Mae ein strategaeth Amser i Weithredu yn gosod allan ein huchelgais am y sector dŵr a’n rôl ni i ymgyrraedd at hyn. Mae ein gwerthoedd yn adlewyrchu ein huchelgais, ein hymrwymiad i ddysgu, i weithredu’n bendant a chydag uniondeb, ganŵ ella’n barhaus, fel y gallwn wneud y cyfraniad mwyaf posib i wella bywyd trwy ddŵr.

Ein nodau strategol, a gymerwyd o’n strategaeth, Amser i Weithredu Ynghyd:




Mae gan ein gwaith broffil uchel ac y mae’n symud yn gyflym mewn awyrgylch deinamig a hyblyg. Bydd eich gwaith beunyddiol yn golygu ein helpu i gyflwyno ein strategaeth, ein helpu i fod y rheoleiddiwr yr ydym am fod, a helpu’r sector i gyflwyno deilliannau sydd o bwys i gwsmeriaid ac i gymdeithas.

## Pam ymuno ag Ofwat?

Sefydliad yw Ofwat gyda phwrpas datblygedig. Rydym yn flaengar o ran meddylfryd, yn greadigol, arloesol ac uchelgeisiol. Byddwn yn gwthio ffiniau'n barhaus ac yn croesawu dulliau newydd o weithio. Yr ydym yn mynd ati  annog ymreolaeth, cydweithredu ac arloesedd, ac y mae yma ddiwylliant o ymddiriedaeth, hyblygrwydd a pharch. Rydym am i bawb gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd a'u gwaith, gan ystyried yr effaith ar eraill ar yr un pryd. Fel sefydliad sy'n dysgu, byddwn yn  derbyn dulliau newydd o weithio, a rhoi'r rhyddid i'n pobl weithio'n glyfrach, gan gadw cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd.

Rydym yn gwneud ein gorau i sicrhau bod ein pobl yn teimlo wedi cysylltu a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac i bob llais gyfrif. Cewch le a chefnogaeth i lunio eich dyfodol, a chymryd mwy o reolaeth dros ein twf a'ch datblygiad eich hun.

Cyn pandemig Covid-19, ni oedd y sefydliad cyntaf yn y Gwasanaeth Sifil i ennill statws Gweithio Clyfrach. Rydym wedi datblygu mwy ar hyn trwy weithio'n hybrid yn ystod y pandemig, gan ennill gwobrau am ein dulliau o weithio wrth i ni ddychwelyd i gyswllt wyneb



yn wyneb eto.

## Ein gwerthoedd

Sail ein holl waith yw ein gwerthoedd SAILOR  (Cefnogaeth, Uchelgais, Uniondeb, Dysgu, Perchenogaeth, Parch) sydd wedi hen sefydlu ac wedi gwreiddio ym mhopeth a wnawn. Hwy sy’n gosod allan sut y ceisiwn ymddwyn a’r hyn rydym yn anelu ato fel sefydliad.




## Ein Fframwaith ar gyfer Llwyddiant

Mae ein Fframwaith ar gyfer Llwyddiant yn ategu ein Gwerthoedd, gan osod allan y nodweddion sy’n arwain at lwyddiant yn Ofwat. Dyma’r fframwaith a ddefnyddir gennym yn ein cyfweliadau, ac i bobl Ofwat, y mae’n erfyn i’w helpu i asesu eu cryfderau a’r mannau i’w datblygu er mwyn cefnogi datblygiad eu gyrfa. Mae’r nodweddion hyn yn gosod allan ein disgwyliadau ar wahanol raddfeydd am y bodd y byddwn yn datblygu ein hunain, yn datblygu eraill ac yn datblygu Ofwat. Dewch i wybod mwy am ein **Fframwaith ar gyfer llwyddiant.**

# Ein diwylliant, ein pobl



Wedi ein sbarduno gan ein gwerthoedd SAILOR, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu diwylliant cynhwysol lle gall ein pobl ddod â'u hunain yn eu cyfanrwydd i'r gwaith, lle mae pawb yn cael ei drin yn gyfartal ac yn cael y grym i ffynnu. Gyda'n gilydd, gallwn gyflawni ein huchelgais o wella bywyd trwy ddŵr.

Ein pobl yw calon ac enaid Ofwat, ac y mae ein Strategaeth Pobl yn uchelgeisiol ac wedi ei gwreiddio'n ddwfn. Yn ein harolwg blynyddol o'n pobl yn 2022, gwnaethom yn well na meincnodau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil (GS) mewn 9 maes o bob 10. Mae ein sgôr Mynegai PERMA yn 74%: dyma'r hyn sy'n mesur sut y mae pobl yn ffynnu yn y gwaith ac y mae'n seiliedig ar bum dimensiwn: teimlad cadarnhaol, ymwneud, perthynas, ystyr a chyrhaeddiad.

Mae gennym sgôr ymwneud o 66% a sgôr o 85% ar gyfer cynhwysiant a thriniaeth deg, sydd 4% yn uwch na chyfartaledd y GS. Mae bod yn atebol ac wedi grymuso yn rhan o'n ffordd o weithio, gyda 91% o bobl â diddordeb yn eu gwaith, ac 89% ohonynt yn cytuno fod ganddynt ddewis o ran y ffordd maent yn gwneud eu gwaith.

I wneud hyn, mae ein strategaeth pobl yn seiliedig ar bum thema a grynhoir yma:




Pan gawsom ein hail-achredu gan Buddsoddi mewn Pobl yn ddiweddar, symudwyd ni i fyny o safonol i arian. Ein nod yw dod yn fwy amrywiol a chynhwysol, gan adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Ein gweledigaeth yw trawsnewid Ofwat o fod yn lle gwych i

weithio i fod yn Lle Gwych i Fod. Rydym yn falch o'n siwrne cyn belled, ac am adeiladu ar y cynnydd hwnnw i wneud Ofwat yn lle gwell fyth i weithio, lle gall pawb lwyddo.

## Y rôl

Bydd y Prif Swyddog Gweithredol (PSG) yn aelod allweddol o'r Uwch-Dîm Arweinyddiaeth (UDA) ac yn arwain y Gyfarwyddiaeth Galluogwyr Corfforaethol. Mae'r gyfarwyddiaeth yn darparu gwasanaethau galluogi corfforaethol proffesiynol – Cyllid, Caffael, TG, Gwasanaethau Gweithle, Pobl – fel bod Ofwat yn rhedeg yn llyfn ac yn cyfrannu at gyrraedd ein strategaeth Amser i Weithredu. Dyma fydd y PSG yn wneud:

- Rhoi arweinyddiaeth effeithiol, gryf ac ysbrydoledig i roi deilliannau gwych i gwsmeriaid a'r amgylchedd.
- Arwain y Gyfarwyddiaeth Galluogwyr Corfforaethol yn effeithiol fel ei bod yn gwella'n gyson i gwsmeriaid mewnol, gan weithio ar y cyd ar draws timau galluogi corfforaethol a gweddill Ofwat.
- Gofalu bod gan y Gyfarwyddiaeth y sgiliau a'r galluoedd iawn i gyflwyni ei swyddogaethau.
- Gweithio i sicrhau bod y Gyfarwyddiaeth yn cynrychioli'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu ac yn cynnal diwylliant cadarnhaol, ac amgylchedd gwaith cynhwysol a chynhyrchiol.
- Arwain ar ddatblygu a rhoi ar waith fodelau gweithredu priodol fydd yn sicrhau bod gan Ofwat wasanaethau galluogi corfforaethol sy'n effeithiol, effeithlon, gwydn ac arloesol fel bod Ofwat yn rhedeg yn llyfn ac yn gallu addasu i gyfleoedd a risgiau a gyfyd yn y dyfodol.
- Arwain gwaith gyda'r UDA i sicrhau bod gan Ofwat y strwythurau, pobl, adnoddau, systemau a phrosesau, diwylliant a dulliau gweithio iawn – yn y ffordd iawn ac ar yr adeg iawn, fel y gallwn gyflwyno gwell deilliannau i gwsmeriaid a'r amgylchedd.
- Arwain ein Strategaeth Pobl fel bod Ofwat yn lle gwych i fod, sy'n perfformio'n dda, gan weithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Pobl. Mae hyn yn cynnwys arwain ein hagwedd at ddoniau, datblygu sefydliadol, Iechyd a Lles, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC), dysgu a datblygu, tâl a gwobrwyo. Gofalu bod Ofwat yn ddeniadol iawn i weithwyr, ac yn denu, gwobrwyo a chadw pobl sy'n meddu ar y sgiliau sydd arnom eu hangen i gyflwyno ein strategaeth Amser i Weithredu a rôl gryfach yng nghyflwyno, perfformiad a chyfeiriad y sector.
- Arwain strategaeth ariannol tymor-canol Ofwat, yr agwedd at CSR, gosod cyllidebau, rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethiant cysylltiedig, gan weithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a Chaffael, a'r Swyddog Cyfrifo. Sicrhau y caiff Ofwat werth am arian. Arwain gyda chyflwyno a datblygu strategaeth a chynnig caffael Ofwat

- Arwain strategaeth TG Ofwat gan weithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr TG, Digidol a Stadau, fel bod gennym wasanaethau TG dibynadwy, gwydn a diogel all gynnal arloesedd, gan gynnwys galluogi ein strategaeth a chyfeiriad data uchelgeisiol. Arwain agwedd Ofwat at Wasanaethau Gweithle, i sicrhau bod ein cyfleusterau yn gwneud y mwyaf o dechnoleg a lleoliadau, a hefyd hyrwyddo Cysylltu'n Well. Gweithredu fel Uwch-Berchennog Strategaeth Gwybodaeth Risg Ofwat.
- Arwain ar fesur cynnydd strategaeth Ofwat, gan gynnwys gweld sut y byddwn yn manteisio ar gyfleoedd i newid, mynd â phobl gyda ni ar y daith tuag at newid, cadw at agwedd pobl-ganolog Ofwat a'i gwerthoedd SAILOR ac ar yr un pryd wneud defnydd o'r adnoddau ychwanegol.
- Diffinio a gweithredu ffyrdd o weithio at y dyfodol er mwyn rhedeg yn well fel sefydliad.
- Bod a rôl allweddol wrth ddatblygu'r UDA yn gyson.

**Pethau allweddol a gyflwynir**

Gan adrodd i'r Prif Weithredwr, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gwneud y canlynol, yn ychwanegol at ysgwyddo cyfrifoldebau allweddol y rôl:

- Gweithio  gyda chydweithwyr ar lefel uwch i roi arweinyddiaeth gorfforaethol effeithiol i Ofwat gyfan. Cyfrannu gwahanol safbwyntiau, arweinyddiaeth amlwg ac ynni.
- Cynnal ac esblygu diwylliant cynhwysol yn y sefydliad lle mae ein pobl yn cynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, ac y rhoddir gwerth ar bawb, eu trin yn deg ac yn cael eu grymuso i ffynnu. Byddwch yn chwarae rhan allweddol yn ein hagenda CAC corfforaethol. Byddwch hefyd yn cefnogi ein pobl i gadw cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd, a chael y gorau o weithio'n hybrid.
- Ysbrydoli a galluogi tîm sylweddol o gydweithwyr mewnol Ofwat i gyflawni yn unol â'n gwerthoedd SAILOR.
- Cynnal a datblygu perthynas waith dda gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol, arwain a chyfrannu at amrywiaeth o fforymau gan gynnwys ein Pwyllgor Swyddfeydd, rhwydweithiau staff, Grŵp Sicrwydd Diogelwch a Gwybodaeth, Grŵp Llywodraethiant Adnoddau, is-grwpiau UDA a byrddau rhaglenni.
- Datblygu a chynnal cyswllt cryf ac effeithiol allanol gyda'n rhanddeiliaid, yn enwedig gyda'r UDRh, cyflenwyr strategol, grŵp PSG UKRN  a rhwydweithiau corfforaethol, AD Defra a Grŵp Diogelwch y Llywodraeth.

Mae hon yn rôl eang, a gall dyletswyddau a chyfrifoldebau esblygu dros amser.

## Gofynion proffesiynol:

I lwyddo yn y rôl hon, bydd gan ddeiliad y swydd y priodweddau, sgiliau, profiad a gwybodaeth isod.

| | **Meini prawf hanfodol** |
|---|---|
| **Profiad, Sgiliau a Gwybodaeth** | • Profiad o uwch-reoli ac arwain yn un neu fwy o'r meysydd dan arweinyddiaeth uniongyrchol y rôl.<br>• Dealltwriaeth gref o'r rôl y gall timau galluogi corfforaethol chwarae ar lefel strategol yn y sector cyhoeddus mewn sefydliad cymhleth tebyg. Profiadol wrth lunio a chyflwyno gwasanaethau ardderchog i gwsmeriaid mewnol, er mwyn cyflwyno deilliannau strategol y sefydliad, galluogi trawsnewid, cydymffurfio, gwella cyson a gwella'r ffordd o wneud penderfyniadau.<br>• Dealltwriaeth a phrofiad o reoli prosiectau, rhaglenni a newid, a sut i gyfarwyddo a chyflwyno newid a gwelliant parhaus ar lefel strategol.<br>• Profiad cryf o reoli rhanddeiliaid, sgiliau dylanwadu a chyfathrebu, a'r hyder i gynrychioli Ofwat yn fewnol ac allanol.<br>• Profiad o weithio gyda bwrdd a/neu ei is-bwyllgorau – megis Pwyllgorau Pobl ac Archwilio a Risg, a defnyddio trefniadau llywodraethiant yn effeithiol i herio ac esblygu polisïau a phrosesau, a rhoi sicrwydd.<br>• Arddull arwain gynhwysol sy'n ysbrydoli, yn symbylu ac yn hyrwyddo cydweithio er mwyn datblygu timau sy'n perfformio'n dda; a hyrwyddo yn rhagweithiol werthoedd SAILOR, credigrwydd, gwelliant parhaus, CAC a ffyrdd newydd o weithio. |
| **Priodweddau ac ymddygiad** | Yn ychwanegol at y sgiliau, gwybodaeth a'r profiad hanfodol y manylir arnynt uchod, byddwn hefyd yn asesu yn erbyn y priodweddau isod yn ystod y broses ddewis:<br>• Hyrwyddo ac arwain newid.<br>• Adeiladu tîm.<br>• Hyrwyddo cydweithredu.<br>• Meddyliwr sy'n gallu addasu.<br>• Creu eglurder; a<br>• Chyflawni deilliannau.<br>Gallwch ddarllen mwy am ein diffiniadau o'r priodweddau hyn yn ein [Fframwaith ar gyfer llwyddiant](#) |

## Sut i ymgeisio

Mae Saxton Bampfylde Ltd yn gweithredu fel ymgynghorydd asiantaeth gyflogi i Ofwat ar y penodiad hwn. Dylai ymgeiswyr wneud cais am y rôl hon trwy ein gwefan ar www.saxbam.com/appointments gan ddefnyddio'r cod **QJUS.** Cliciwch ar y botwm 'apply' a dilyn y cyfarwyddiadau i wneud y canlynol:

- Uwchlwytho CV a llythyr ategol - dylai eich llythyr ategol fod rhyw 2 dudalen o hyd (dim mwy na 3 tudalen) a dylai amlinellu'n glir sut y mae eich **sgiliau, profiad a gwybodaeth** yn ateb y meini prawf a osodir allan yn adran gofynion proffesiynol y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr.
- Llenwi'r ffurflen fonitro cyfle cyfartal ar-lein *.
- Llenwi'r ffurflen gwrthdrawiad buddiannau.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner dydd ar ddydd Mawrth 100 Hydref 2023. Sylwch na fyd modd i ni ystyried ceisiadau hwyr.

** Ni fydd y ffurflen fonitro cyfle cyfartal ar-lein yn cael ei rhannu gyda neb sy'n rhan o asesu eich cais. A fyddwch cystal â'i llenwi fel rhan o'r broses o wneud cais.*

## Y broses ddewis

Lea Paterson, Comisiynydd Gwasanaeth Sifil, fydd yn cadeirio'r broses. Mae dwy brif swyddogaeth i Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil:

1. Rhoi sicrwydd y dewisir ar gyfer penodiadau i'r Gwasanaeth Sifil ar haeddiant ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored. I'r swyddi uchaf yn y Gwasanaeth Sifil, mae'r Commission yn cyflawni ei ddyletswyddau yn uniongyrchol trwy oruchwylio'r broses recriwtio a chan Gomisiynydd yn cadeirio'r panel dewis.

2.Gwrando a phennu apeliadau a wneir gan weision sifil dan God y Gwasanaeth Sifil sydd yn gosod allan werthoedd y Gwasanaeth Sifil– Amhleidioldeb, Gwrthrychedd, Unplygrwydd a Gonestrwydd – ac sy'n ffurfio rhan o'r berthynas rhwng gweision sifil a'u cyflogwr.

Mae gwybodaeth fanylach ar wefan Comisiwn y Gwasanaeth Sifil: http://civilservicecommission.independent.gov.uk

Dyma'r panel penodi ar gyfer y broses hon:

- Lea Paterson – Comisiynydd y Gwasanaeth Sifil a Chadeirydd y panel penodi
- Iain Coucher – Cadeirydd Ofwat
- Seema Kennedy – Aelod Anweithredol o'r Bwrdd
- David Black – Prif Weithredwr

Fe wnawn ein gorau i fod mor hyblyg ag sydd mod, ond efallai na fydd yn bosib cynnig dyddiadau amgen am asesiadau neu gyfweliadau. Gofynnir i chi felly nodi'r amserlen isod, gan fod yn hyblyg trwy'r broses recriwtio a dewis, er mwyn cwrdd â'r dyddiadau a roddir.

Bwriad y panel ar hyn o bryd yw gofyn i restr hir o ymgeiswyr gwrdd â Saxton Bampfylde yn dilyn cyfarfod i dynnu rhestr hir, ond efallai yr eir yn syth i restr fer bryd hynny.

Caiff ymgeiswyr wybod am y camau nesaf beth bynnag fydd yn digwydd. Sylwch y gall y dyddiadau canlynol newid.

- Cyfarfod rhestr hir: w/c 16 Hydref 2023
- Cyfweliadau gyda Saxton Bampfylde: w/c 23 Hydref 2023
- Cyfarfod rhestr fer: w/c 30 Hydref 2023
- Sgyrsiau unigol anffurfiol gydag Ofwat: (dewis i ymweld â'n swyddfeydd yn Birmingham) w/c 6 Tachwedd 2023
- Asesiadau seicolegol: (gan gynnwys rhesymu geiriol a rhifol) w/c 6 a 13 Tachwedd 2023
- Ymarferiad ymwneud a'r staff **: w/c 13 Tachwedd 2023
- Cyfweliadau panel: w/c 20 Tachwedd 2023

***Mae ymarferiad ymwneud â'r staff yn rhoi mewnwelediad i'r modd y mae ymgeiswyr yn trin ac yn ymwneud â staff a rhanddeiliaid, ar draws gwahanol lefelau a meysydd diddordeb. Mae'r broses ei hun yn mynnu bod ymgeiswyr yn rhoi cyflwyniad cychwynnol byr mewn ymateb i gwestiwn (rhoddir pwnc y cyflwyniad i'r ymgeiswyr ymlaen llaw), ac yna ymwneud â grŵp o randdeiliaid ac ateb eu cwestiynau.*

## Y broses asesu

Yn y cyfnod o wneud cais, byddwn yn asesu eich CV a'ch llythyr ategol yn erbyn y meini prawf **'Profiad, Sgiliau a Gwybodaeth'** hanfodol a restrir yn y tabl gofynion proffesiynol.

Yn ystod y broses gyfweld, byddwn yn asesu'r **'Profiad, Sgiliau a Gwybodaeth'** yn ogystal â'r **'Priodweddau a'r Ymddygiad'** isod a osodir allan yn yr adran gofynion proffesiynol:

- Hyrwyddo ac arwain newid.
- Adeiladu tîm.
- Hyrwyddo cydweithredu.
- Meddyliwr sy'n gallu addasu.
- Creu eglurder.
- Cyflawni deilliannau.

Gallwch ddarllen mwy am y Priodweddau ac Ymddygiad yn y ddogfen **Fframwaith ar gyfer llwyddiant**

Bydd y cyfweliad hefyd yn cynnwys cyflwyniad byr. Bydd ymgeiswyr a roddir ar y rhestr fer yn cael mwy o fanylion pan wahoddir hwy i gael eu cyfweld.

Sylwch y cynhelir cyfweliadau wyneb yn wyneb yn ein swyddfa yn Llundain, 5ed Llawr, Westferry House, 11 Westferry Circus, Canary Wharf, Llundain E14 4HD.

Yn y cyfnod cyfweld, bydd Saxton Bampfylde yn dilyn geirda dros y ffôn am yr ymgeisydd/wyr a ddewiswyd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw agwedd o'r rôl, y broses ddewis, neu os bydd arnoch angen unrhyw addasiadau rhesymol, e-bostiwch **Rhianna.Gerry@saxbam.com**



# Telerau ac amodau cyflogaeth

## Contract

Penodiad parhaol yw hwn.

## Cyflog

Yr ystod cyflog am Fand 2 Uwch-Was Sifi2 (SCS2) yw £95,000 – £162,500. Ar gyfer y rôl hon, gall ymgeiswyr allanol gael cyflog cychwynnol o waelod yr ystod i £130,000, yn dibynnu ar y sgiliau a'r profiad perthnasol sydd eu hangen ar gyfer y swydd. Telir y cyflog yn fisol trwy drosglwyddo credyd.

Byddai ymgeiswyr mewnol sydd eisoes ar lefel y swydd hon fel arfer yn cadw eu trefniadau cyflog presennol gan y byddai hyn yn gyfystyr a throsglwyddo lefel. Os mai gwneud cais am y rôl fel dyrchafiad a wneir, gall yr ymgeiswyr hyn fel arfer ddisgwyl gael eu penodi ar gyflog ar waelod y band neu godiad o 10% i'r cyflog presennol, p'run bynnag sydd fwyaf.

### Lleoliad

Yn ein swyddfa yn Birmingham  y seilir y rôl hon, a dyma fydd eich man gwaith dynodedig, gyda theithio rheolaidd rhwng ein swyddfeydd fydd yn cynnwys Llundain. Ni thelir treuliau adleoli ar gyfer y rôl hon. Mae gan weithwyr  Ofwat gyfle i weithio'n hybrid, felly bydd gennych gyfle i weithio gartref ac yn y swyddfa. Mae Ofwat yn gyflogwr cynhwysol ac y mae gweithio'n ystwyth yn rhan bwysig o'n diwylliant.

Gwyddom fod gweithio'n ystwyth yn rhoi'r grym i'n gweithwyr reoli eu hamser eu hunain, gan feithrin cydbwysedd iach rhwng gwaith a bywyd a hyrwyddo iechyd a lles, tra'n dal yn gynhyrchiol. Yma yn Ofwat rydym yn teimlo bod treulio amser rheolaidd gyda'n gilydd yn bwysig i gynnal cydweithio, ffurfio a chynnal perthynas ag eraill, a chefnogi cyflawni deilliannau busnes Ofwat. Bydd gweithio yn y swyddfa yn rhoi cyfle i ymwneud a chysylltu wyneb yn wyneb, mewn cyfarfodydd a rhwydweithio. Fel aelod o UDA bydd disgwyl i chi dreulio amser yn rheolaidd yn y swyddfa.

## Man gwaith dan gontract a threuliau trethadwy

Bydd unrhyw un sy'n rheolaidd yn gweithio mwy na deuddydd yr wythnos yn swyddfeydd Birmingham a Llundain, waeth ble mae eu gweithle dan y contract, yn cael ei ystyried gan CThEF yn bod a dau weithle parhaol.

Mae talu eich tocyn rheilffordd, llety neu gynhaliaeth yn y sefyllfa hon yn destun treth ac Yswiriant Gwladol am eich bod yn derbyn budd.

Ofwat sydd yn cwrdd â chost treth ac Yswiriant Gwladol trwy adio eich holl dreuliau ac adfer y swm net trwy eich pecyn cyflog misol. Ond y mae'r treuliau yn enillion trethadwy, a allai gael effaith ar unrhyw atafaeliad enillion - er enghraifft, ad-daliadau benthyciad myfyriwr, budd-dal plant incwm uchel a budd-daliadau'r wladwriaeth.

Mae hyn yn golygu na fydd angen i chi gwrdd â chostau teithio i'r swyddfa sydd heb fod yn ganolfan i chi.

Am fwy o wybodaeth am dreuliau trethadwy, e-bostiwch payroll@ofwat.gov.uk

## Oriau gwaith

Mae'r swydd hon yn agored i weithio llawn-amser (37 awr yr wythnos), hyblyg, rhan-amser neu rannu swydd. Bydd gofyn i chi weithio hynny o oriau ychwanegol sy'n rhesymol ac yn angenrheidiol i gyflawni eich dyletswyddau yn effeithiol.

## Cyfnod prawf

Mae cyfnod prawf o chwe mis i bob gweithiwr newydd. Yn amodol ar berfformiad boddhaol, caiff deiliad y swydd ei d/throsglwyddo i'r gweithlu parhaol ar derfyn y cyfnod prawf.

## Gwyliau blynyddol

Pan gaiff ei b/phenodi, bydd gan ddeiliad y swydd hawl i 25 diwrnod o wyliau blynyddol ynghyd a 10½ diwrnod o wyliau cyhoeddus a braint bob blwyddyn. Caiff yr hawl i wyliau blynyddol ei gynyddu fesul un diwrnod am bob blwyddyn o gyflogaeth ddi-dor gydag Ofwat, hyd at uchafswm lwfans gwyliau o 30 diwrnod.

## Pensiwn

Pan gewch eich penodi, byddwch yn gymwys i ymuno â Phensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Gwasanaeth Sifil yn cynnig dewis o bensiynau budd-dal diffiniedig a rhai rhanddeiliaid, sy'n rhoi'r hyblygrwydd di chi ddewis y pensiwn mwyaf addas i chi. Yr ydym yn cynnig dau fath o bensiwn.

**Alpha:** Cynllun pensiwn galwedigaethol yw alpha ac y mae'n darparu budd-dal diffiniedig sy'n cael ei weithio allan ar sail Cyfartaledd Gyrfa.

Mae cyfraniadau aelodau yn seiliedig ar union gyflogau.

### O 1 Ebrill 2023, dyma fydd cyfraniadau'r gweithiwr:

| Cyflog pensiynadwy gwirioneddol (blynyddol) | Pob aelod |
|---|---|
| Hyd at ac yn cynnwys £32,000 | 4.60% |
| £32,001 i £56,000 | 5.45% |
| £56,001 i £150,000 | 7.35% |
| £150,001 a throsodd | 8.05% |

### O 1 April 2023, dyma fydd cyfraniadau'r cyflogwr:

| Band Cyflog Diwygiedig(£) | Cyfradd ASLC o 1 Ebrill 2023 |
|---|---|
| 23,000 ac yn is | 26.6% |
| 23,001 i 45,500 | 27.1% |
| 45,501 i 77,000 | 27.9% |
| 77,001 a throsodd | 30.3% |

**Partneriaeth:** pensiwn rhanddeiliaid yw hwn, gyda chyfraniad gan Ofwat. Mae'r hyn a dalwn yn seiliedig ar eich oedran. Byddwn yn talu hyn os byddwch chi'n dewis cyfrannu unrhyw beth neu beidio. Does dim rhaid i chi gyfrannu, ond os gwnewch, byddwn hefyd yn talu'r hyn sy'n cyfateb i'ch cyfraniadau hyd at 3% o'ch enillion pensiynadwy.

### Cyfraniadau'r cyflogwr seiliedig ar oedran

| Oedran ar 6 Ebrill diwethaf | Canran eich enillion pensiynadwy |
|---|---|
| Dan 31 | 8% |
| 31 i 35 | 9% |
| 36 i 40 | 11% |
| 41 i 45 | 13.5% |
| 46 neu hŷn | 14.75% |

I ddysgu mwy am gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, dilynwch y ddolen http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/

# Buddion Ofwat

Rydym hefyd yn cynnig ystod o fuddion ychwanegol. Yn eu plith mae:

- mynediad at ein pecyn o fuddion trwy ein cynllun 'Edenred'. Cynllun buddion gwirfoddol yw hwn lle gall staff gael gostyngiadau unigryw ar amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau fel siopau, tocynnau theatr, gwyliau, yswiriant ac aelodaeth o gampfeydd;
- cynllun beicio-i'r-gwaith;
- benthyciad tocyn tymor am deithio rhwng y cartref a'r swyddfa;
- trefniadau gweithio hyblyg;
- talu ffioedd am aelodaeth o gyrff proffesiynol perthnasol;
- hyd at 3 diwrnod o wirfoddoli y flwyddyn
- gwell absenoldeb salwch
- absenoldeb a thâl rhieni hael, sy'n cael ei rannu
- datblygu proffesiynol rheolaidd;
- mentrau iechyd a lles; a
- profion llygaid am ddim a chyfraniad tuag at lensys/sbectol i ddefnyddwyr VDU, os yn briodol

Bydd unrhyw symud i Ofwat o gyflogwr arall yn golygu na allwch bellach gyrchu talebau gofal plant. Mae hyn yn cynnwys symud rhwng adrannau'r llywodraeth. Er hynny, gallwch fod yn gymwys am gynlluniau eraill y llywodraeth, gan gynnwys Gofal Plant Di-dreth. Gallwch weld a ydych yn gymwys ai peidio trwy fynd at https://www.childcarechoices.gov.uk/.

### Gwiriadau BPSS a SC

Fel un o gyflogwyr y gwasanaeth sifil, mae gofyn i Ofwat sicrhau fod pawb sy'n dechrau gweithio o'r newydd gyda hwy yn cydymffurfio â 'Gwaelodlin Safonau Diogelwch Personél' (BPSS).
Cydnabyddir Ofwat fel adran Swyddogol Sensitif ac y mae gwiriad Cliriad Diogelwch (CD) yn ofynnol ar gyfer y rôl hon. Rhaid cymeradwyo'r CD gyda chanlyniadau sy'n foddhaol i Ofwat o fewn 6 mis cyntaf eich cyflogaeth.

### Rheolau Cenedligrwydd y Gwasanaeth Sifil:

Mae'r swydd hon yn fras yn agored i'r grwpiau canlynol:

- dinasyddion y DU
- dinasyddion Gweriniaeth Iwerddon
- dinasyddion gwledydd y Gymanwlad sydd a'r hawl i weithio yn y DU
- dinasyddion yr UE, y Swistir, Norwy, Gwlad yr Iâ neu Liechtenstein ac aelodau teuluoedd y dinasyddion hynny gyda statws sefydledig neu gyn-sefydledig dan Gynllun Setlo'r Undeb Ewropeaidd (CSUE) (agor mewn ffenest newydd)

- dinasyddion yr UE, y Swistir, Norwy, Gwlad yr Iâ neu Liechtenstein ac aelodau teuluoedd y dinasyddion hynny a wnaeth gais dilys am statws sefydledig neu gyn-sefydledig dan Gynllun Setlo'r Undeb Ewropeaidd (CSUE)
- unigolion gyda hawl gyfyngedig i aros i hawl ddiderfyn i aros oedd yn gymwys i wneud cais am CSUE ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020
- dinasyddion Twrcaidd, a rhai o aelodau teuluoedd dinasyddion Twrcaidd sydd wedi cronni'r hawl i weithio yn y Gwasanaeth Sifil

Mae mwy o wybodaeth am ofynion cenedligrwydd yma Civil Service recruitment: nationality rules - GOV.UK (www.gov.uk)

Mae'r swydd hon yn agored i ddinasyddion gwladwriaethau yn y Gymanwlad Brydeinig a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a rhai o aelodau eu teuluoedd. Ni ddylid bod ag unrhyw gyfyngiad cyflogaeth na therfyn amser ar yr arhosiad a ganiateir i chi yn y DU.

Os hoffech fwy o wybodaeth am Genedligrwydd a Rheoli Mewnfudo, e-bostiwch ni ar people@ofwat.gov.uk.

## Stociau neu gyfrannau

Oherwydd natur y wybodaeth y deuwch i gysylltiad ag ef a'r angen i fod yn hollol annibynnol ar y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr, fe'ch gwaherddir chi a'ch teulu (gan gynnwys eich priod neu bartner sifil ac unrhyw blant neu lysblant dan 18 oed sy'n dal i fyw gartref, neu unrhyw aelod arall o'ch aelwyd) rhag bod yn berchen ar, prynu neu fasnachu yng nghyfrannau'r cwmniau dŵr a'u cwmniau daliannol.

## Gwrthdrawiad Buddiannau

Mae gan ein pobl ddyletswydd fel gweision sifil i sicrhau nad yw eu safle cyhoeddus yn cael ei gam-ddefnyddio er eu budd personol eu hunain, ac nad oes unrhyw amheuaeth resymol fod hyn yn digwydd. Bydd gofyn i bob ymgeisydd ddatgan unrhyw wrthdrawiad buddiannau posib pan fyddant yn gwneud cais. Gall gwrthdrawiad buddiannau olygu eich buddiannau ariannol neu anariannol chi eich hun, neu fuddiannau busnes partner, aelod o'r teulu, cyfaill neu rywun y mae gennych berthynas bersonol agos ag ef/hi.

# Gwybodaeth bellach

## Diogelu data

Byddwn yn defnyddio eich cais yn unig fel sail i'r broses ddewis. Os byddwch yn llwyddiannus, bydd yn sail i'ch cofnod personol fel gweithiwr gyda ni a byddwn yn ei storio yn electronig ar ein System Reoli Dogfennau Electronig SharePoint (EDRMS) a'n system AD iTrent. Ni fydd ceisiadau aflwyddiannus yn cael eu cadw a chant eu dinistrio gan ddenfyddio dulliau gwaredu diogel Ofwat. Petaech yn dweud yr hoffech i Ofwat gadw eich gwybodaeth ar gyfer cyfloed am gyflogaeth yn y dyfodol, fe gadwn y wybodaeth hon. Os ar unrhyw adeg y penderfynwch nad ydych am i Ofwat gadw eich gwybodaeth at y dibenion hyn, cysylltwch â ni ac fe wnawn yn siŵr fod eich gwybodaeth yn cael ei dynnu o'n systemau, onid oes rheidrwydd cyfreithiol arnom i'w gadw am gyfnod pellach.

Byddwn yn cadw unrhyw ddata amdanoch mewn amodau hollol ddiogel a chyda chyfyngiadau ar fynediad ato. Weithiau, mae gwybodaeth ar ffurf ystadegol am weithwyr presennol a chyn-weithwyr yn cael ei ddarparu i gyrff allanol priodol. Lle bynnag y mae hyn yn bosib, bydd Ofwat yn gwneud yn siwr fod gwybodaeth ystadegol yn cael ei wneud yn ddienw.

Byddwn yn cynnwys data a ddarparwyd gennych ar y ffurflen fonitro amrywiaeth ar gronfa ddata gyffredinol at ddibenion monitro ystadegol yn unig. Mae hyn yn ein galluogi i fonitro effeithiolrwydd ein polisi ar gyfle cyfartal mewn cyflogaeth.

Mae Ofwat yn prosesu'r holl ddata personol a roesoch i ni yn ystod eich cais fel sy'n cael ei osod allan ym mholisi preifatrwydd Ofwat sydd ar gael yma: <https://www.ofwat.gov.uk/publication/privacy-policy/>. Os oes gennych unrhyw bryderon am brosesu peth o'ch data neu'r cyfan ohono, rhowch wybod yn ysgrifenedig i'r Hwb Pobl yn people@ofwat.gov.uk a/neu y Swyddog Diogelu Data trwy e-bostio FOI@ofwat.gov.uk

## Amrywiaeth

Nod Ofwat yw bod yn gyflogwr cyfle cyfartal. Bwriadwn wneud yn siwr fod cydraddoldeb cyfle a thriniaeth deg i bawb, waeth beth fo'r isod:

- oedran;
- anabledd;
- ailbennu rhywedd;
- statws priodasol a phartneriaeth sifil;
- beichiogrwydd a mamolaeth;
- hil, crefydd neu gred; neu

- rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Carem eich sicrhau y byddwn yn trin y wybodaeth a roddwch ar y ffurflen monitro amrywiaeth yn hollol gyfrinachol, a'i ddefnyddio yn unig i fonitro polisïau cyfle cyfartal priodol. Nid yw'r wybodaeth hon yn chwarae unrhyw ran yn ein proses ddewis.

## Buddsoddwyr mewn Pobl (BMP) – Arian

Mae gan Ofwat achrediad BMP sydd yn adlewyrchu arferion rheoli da ledled ein sefydliad, gan gynnwys mewn cynllunio busnes, gosod amcanion unigol, cyfleoedd dysgu a datblygu, yn ogystal ag adborth cadarnhaol cyson trwy gynnal sgyrsiau cyflawni a datblygu er mwyn rheoli perfformiad.

## Cynllun Hyderus am Anabledd

Fel rhan o'r cynllun hyderus am anabledd, yr ydym yn gwarantu cyfweld pob ymgeisydd anabl sy'n cwrdd ag isafswm y meini prawf.

## Gweithdrefn gwynion

Mae'r broses recriwtio ac asesu yn derbyn egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored a'r arferion gorau. Y cyntaf yw cynnal egwyddor dewis ar gyfer penodiad i'r Gwasanaeth Sifil yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored fel sy'n cael ei amlinellu yn Egwyddorion Recriwtio y Gwasanaeth Sifil . Yr ail yw hyrwyddo dealltwriaeth o God y Gwasanaeth Sifil sydd yn gosod allan y fframwaith cyfansoddiadol y mae pob gwas sifil yn gweithio dano a'r gwerthoedd y disgwylir iddynt eu cynnal, a gwrando ar a phennu apeliadau a wneir dano.

Os teimlwch na chafodd eich cais ei drin yn unol â'r egwyddorion recriwtio a'ch bod am wneud cwyn, dylech gysylltu â Ruth Noake, Pennaeth Talent a DS, Galluogwyr Corfforaethol (Pobl) Ofwat, Centre City Tower, 7 Hill Street, Birmingham, B5 4UA i ddechrau. Os ydych yn dal heb eich bodloni gyda'r ymateb a gawsoch gennym, gallwch gysylltu â Chomisiwn y Gwasanaeth Sifil ar info@csc.gov.uk.

## Mae Ofwat (Yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran anweinidogol o'r llywodraeth. Ni sydd yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr

Ofwat
Centre City Tower 7 Hill Street
Birmingham B5 4UA
Ffôn: 0121 644 7500

© Hawlfraint y Goron 2023

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth v v3.0 ac eithrio lle nodir i'r gwrthwyneb. I weld y drwydded hon, ewch at nationalarchives.gov.uk/doc/ open-government-Licence/version/3.

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Anfonwch unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn at: mailbox@ofwat.gov.uk.

Recognised as Smarter Working Mature — Awarded by Government Property Agency

OGL

Civil Service Commission

INVESTORS IN PEOPLE® We invest in people Silver